CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
18 IONAWR 2017 AM 7.00 O'R GLOCH YN YSGOL BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, S Parry, R G Parry, K Humphreys, C Ll Thomas, E Huws, Cyng D Rees (Cyngor Sir), 8 aelod o'r cyhoedd	
YMDDIHEURIADAU: Cyng N Highley, G Parry, I Rowlands	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Dechreuwyd gyda cyfarfod cyhoeddus i drafod 16C63A Cais llawn ar gyfer codi annedd ar dir gyferbyn a 29 Tyn Berllan, Bryngwran. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn gwrthwynebu y cais: Mae cyflwr y ffordd ar hyd Lon Bryngwran Farm mewn cyflwr gwael iawn ac ni all gynnal traffig ychwanegol, sy'n codi pryderon diogelwch. Mae'r ffordd yn culhau ac nid yw'n caniatáu mynediad i gerbydau argyfwng. Gweleded yn wael ar gyfer preswylwyr ar ochr Caergybi y ffordd wrth adael eu heiddo. Mae'r ffin ar y cynllun yn anghywir - nid yw y darn o dir gyda weiren bigog yn perthyn i'r plot. Mae'r plot y tu allan i'r ffin datblygu
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng D Rees (Cynefin), Cyng C Ll Thomas (cais cynllunio 16C206)
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 23 Tachwedd 2016, Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng S Parry yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr** - Mae y Clerc wedi derbyn un pris newydd (i gynnwys llechi Cymraeg) ac yn disgwyl 2 pris arall.
4.2	**Siec cyfrif y maes chwarae** - Mae y taliad £644.62 wedi cael ei dalu i mewn i cyfrif y Cyngor.
4.3	**Maes chwarae (trin yr offer)** - Mae Macventure Play wedi gosod y rhaff. Mae'r Clerc yn disgwyl prisiau am swing newydd.
4.4	**Lon Salem** Mae Cyng R G Parry wedi gofyn i'r Cyngor Sir gorffen y gwaith, peintio ac ymlaen. Gofynwyd i'r Clerc trefnu cyfarfod ar y safle i drafod arwyddion.
4.5	**Hysbysffwrdd Newydd** - Mae'r gwaith wedi cael ei wneud.
4.6	**Cynefin (Lon Salem)** Mae'r mater yn nwylo'r cyfreithwyr
4.7	**Lon y Fynwent** - Yn dilyn cwyn am tyllau ar y lon, cytunwyd i ofyn am dau pris am tarmacio y darn o'r A5 i'r troad.
	Llofnod…….Cadeirydd 08.02.17
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** Cynigodd Cyng R G Parry a'r Cadeirydd gydymdeimlad at y Clerc yn

	dilyn ei brofedigaeth. Hefyd, cynigodd y Cadeirydd diolchiadau i Cyng K Humphreys am cael coeden Nadolig i'r pentref
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
6.1	16C63A Cais llawn ar gyfer codi annedd ar dir gyferbyn a 29 Tyn Berllan, Bryngwran. Cytunwyd i gwrthwynebu (gweler uchod)
6.2	16C198A Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Penterfyn, Engedi - dim sylwadau
6.3	16C206 Cais llawn i ledu'r fynedfa bresennol i gerbydau yn 57 Stryd Fawr, Bryngwran - dim sylwadau (gadawodd Cyng Thomas yr ystafell)
	Busnes y Cyngor
6.4	Panel Dewis y Pwyllgor Safonau - sedd wâg - dim diddordeb
6.5	Pwyllgor Safonau - nodyn briffio - mae pawb wedi cael copi o'r nodyn briffio
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Cymunedau yn Gyntaf - Llythyr yn cynnig rhoi pris am torri gwair ac archwilio'r offer - cytunwyd i gofyn am pris o 2018 ymlaen
7.2	Cynefin - gweler 4.7
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Mynwent Llanbeulan - mae'r fynwent wedi cael ei dorri. Cytunwyd i dynnu'r mater o ar yr agenda
8.2	Plaque (Carreg yr Eisteddfod) - mewn llaw
9	**MATERION ARIANNOL**
9.1	Adolygiad ariannol chwarterol. Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
9.2	Cytunwyd i dalu Ôl-daliad Cyflog y Clerc £80.00
9.3	Precept 2017/18. Cytunwyd i codi'r precept i £9450 - Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng C Ll Thomas yn eilio (Pawb yn cytuno)
9.4	Cytunwyd i dalu Macventure Play £153.60 (gosod rhaff ar yr offer)
9.5	Ysgol Bryngwran (cais am cyfraniad cysylltiad i'r wê) - Cytunwyd i dalu £300
9.6	Cytunwyd i dalu J H & L Lloyd £202.84 (gosod hysbysffwrdd)
9.7	Hefyd cytunwyd i dalu £500 at Eisteddfod Genedlaethol (Môn 2017)
9.8	Mae'r Clerc wedi derbyn siec am £500 gan Byw Bywiog, Bryngwran (Oherwydd bod y sefydliad wedi cau i lawr)
10	**Materion ar gyfer y rhaglen nesaf**
10.1	Yr Heddlu
10.2	Dwr Cymru
10.3	Capel Salem
	Llofnod…….Cadeirydd 08.02.17